

CASTELL-NEDD PORT TALBOT

CRONFA GYMUNEDOL IECHYD MEDDWL A LLESIANT TSUK

CANLLAWIAU'R GRONFA

CRONFA GYMUNEDOL IECHYD MEDDWL A LLESIANT TSUK

1. Cyflwyniad

Mae Tata Steel UK (TSUK) yn pontio i gynhyrchu dur mwy gwyrdd ym Mhort Talbot (PT) gydag effeithiau canlyniadol.

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu £102 miliwn i liniaru effaith y sioc economaidd ac i gefnogi gweithwyr TSUK, busnesau a gweithwyr yr effeithiwyd arnynt o fewn y gadwyn gyflenwi a'r busnesau hynny sy'n gweithredu mewn sectorau anfasnachadwy ac i gefnogi adfywio PT.

Mae cwmipas yr arian wedi'i ehangu i ariannu gwasanaethau cymorth ychwanegol i weithwyr, pobl, teuluoedd a chymunedau cysylltiedig yr effeithir arnynt.

Mae tystiolaeth i ddangos y gall digwyddiadau diweithdra fel cyfnod pontio TSUK gael ystod eang o effeithiau, y gellir eu teimlo'n unigol neu fel cymuned.

O ystyried yr anghydraddoldebau sylweddol sydd eisoes yn bodoli o fewn y boblogaeth leol, mae angen cymryd camau i leihau'r risg o niwed.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) yn ei rôl fel corff atebol wedi neilltuo arian i gefnogi mentrau iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn wedi cael ei gytuno gan Lywodraeth y DU a Bwrdd Pontio TSUK.

Yr adborth allweddol gan y gymuned yw y bydd angen gwasanaethau y tu hwnt i 2025 yn enwedig pan fydd taliadau diswyddo yn dod i ben.

Yn seiliedig ar dystiolaeth, cytunwyd ar sawl ymyrraeth gan gynnwys darparu Cronfa Gymunedol Iechyd Meddwl a Llesiant TSUK. Nod y gronfa yw cefnogi buddsoddiad cymunedol lleol a gwasanaethu'r cymunedau a'r bobl yr effeithir arnynt gan y newid.

Bydd y gronfa mor hyblyg â phosibl, fel y gall y prosiectau a gefnogir wasanaethu'r gymuned nawr ac yn y dyfodol. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio amcanion a blaenoriaethau'r gronfa, sy'n berthnasol i CNPT yn unig.

Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at y rhai sy'n teimlo y gallant gynnig rhywbeth i helpu i liniaru effeithiau'r newid.

2. TSUK – Blaenoriaethau Buddsoddi Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae Dogfen Addasu Prosiect a gytunwyd rhwng NPTC a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) (arianwyr) yn nodi'r themâu canlynol a fydd yn arwain y gronfa hon:

- Harneisio asedau cymunedol ac adeiladu cydlyniant i gefnogi ac adeiladu gwydnwch cymunedol ac ehangu argaeledd cefnogaeth gymunedol a chymheiriaid er mwyn i'r gymuned leol gael ei diogelu a'i chefnogi yn ystod a thu hwnt i'r cyfnod pontio.
- Adeiladu ar asedau presennol yn y gymuned neu alluogi cymunedau i ddatblygu eu hymateb eu hunain yn yr ardal.
- Sicrhau y gall cyfranogiad gweithredol rhwydweithiau cymorth cymdeithasol presennol ac arweinyddiaeth gymunedol barhau i ddarparu mannau diogel i alluogi'r gymuned i ddod ynghyd ac adeiladu ymateb sy'n defnyddio asedau lleol presennol.
- Mynd i'r afael ag anghenion pwysig yn lleol.

Themâu cyffredinol

Rhaid i ymgeisydd llwyddiannus ddangos/tystiolaethu sut mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf canlynol.

1. Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, teuluoedd a chymunedau (yn gwneud gwahaniaeth):
 - Cysylltu â phobl, unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt gan y pontio yn Tata Steel a'u cefnogi (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).
 - Helpu i liniaru effaith y newid mewn ffordd gynhwysol
2. Heddiw, yfory a dyfodol iach a llesol:
 - O fudd i drigolion a'r cymunedau o fewn CBSCNPT drwy helpu i fynd i'r afael ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a restrir ac mae'n gyson â'r egwyddorion a'r themâu uchod.
 - Yn canolbwyntio ar lesiant, lles, gallu gofalu amdanom ni ein hunain ac eraill yn y gymuned ac iechyd sy'n cynnwys iechyd corfforol a meddyliol.
3. Heddiw, yfory a dyfodol gwydn:
 - Yn ystyried cynaliadwyedd a dyfodol y prosiect heb arian grant
 - Yn hyrwyddo positifrwydd ac yn meithrin mwy o hyder a llesiant.
 - Yn helpu pobl i feddwl yn gadarnhaol am y dyfodol
4. Yn cynrychioli gwerth am arian ac yn defnyddio contractwyr lleol lle bo modd.

3. Cronfa Gymunedol IECHYD MEDDWL A LLESIANT TSUK

Nod a chwmpas y gronfa TSUK hon yw lliniaru effaith cyfnod pontio TSUK yn unol â'r amcanion a'r blaenoriaethau uchod a gwneud gwahaniaeth nawr ac yn y dyfodol.

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer prosiectau cymwys ledled y fwrdeistref sirol. Bydd Cronfa gymunedol CNPT TSUK gwerth £1.2m yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf a refeniw.

Bydd y Gronfa'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn gyson â chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (sy'n adlewyrchu Cynllun Corfforaethol Cyngor CNPT), amcanion y gronfa sgiliau, tystiolaeth a mewnwediadau a gynhyrchwyd o strwythurau Bwrdd Pontio Tata a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r ffynonellau tystiolaeth a amlygwyd uchod.

Rhaid i'ch cynnig gydweddu ag un o leiaf un o'r blaenoriaethau canlynol: Nid yw'r canlynol mewn trefn flaenoriaeth.

1. Disodli lle a gollwyd ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid a chefnogaeth gilyddol a chyfleoedd rhwydweithio a fwynheir yn yr amgylchedd gwaith (cyfeillgarwch/cwmnïaeth/cwmnigarwch):

- Galluogi a chryfhau rhwydweithiau cymunedol.
- Cefnogaeth i ddatblygu hunan-barch, gwydnwch a strategaethau ymdopi.
- Harneisio neu adeiladu ar neu ddatblygu adnoddau cymunedol (boed hynny'n ased ffisegol neu'n ysbryd cymunedol) gan ddod â chymunedau a chefnogaeth gan gymheiriaid at ei gilydd, gan gynnwys gweithgareddau rhwng y cenedlaethau.
- Cefnogi agweddau pwysig ar fywyd cymunedol.

2. Galluogi a chryfhau rhwydweithiau cymunedol gan adeiladu neu wella'r hyn sydd eisoes yn y gymuned:

- Adeiladu ar y cryfderau a'r cyfleoedd o fewn y gymuned neu alluogi cymunedau i ddatblygu eu hymateb eu hunain.
- Darparu mannau diogel i alluogi'r gymuned i ddod ynghyd ac adeiladu ymateb sy'n tynnu ar ased(au)/adnoddau lleol presennol.
- Cyfleoedd i ddod â manteision ychwanegol a newydd i'r ardal i harneisio ysbryd cymunedol, cynyddu hyder ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn ein cymunedau.
- Ymyrraeth gynnar ac atal

3. Annog a chefnogi iechyd meddwl a llesiant – gan gynnwys cynyddu hunan-barch pobl, a'u gwydnwch a datblygu strategaethau ymdopi:

- Cefnogi ac annog gweithgareddau pwrpasol sy'n gwella iechyd a llesiant ac yn gwrthweithio ymddygiadau neu feddyliau niweidiol.
- Ymgysylltu â mentrau atal hunanladdiad.


- Helpu i fynd i'r afael â thlodi a rheoli dyled.
- Diogelu a chefnogi'r gymuned.
- Bod yn egnïol yn feddyliol ac yn gorfforol.
- Cymorth teuluol, gan gynnwys llesiant meddyliol priod a phlant

4. Mynd i'r afael ag ymddygiadau sy'n niweidio iechyd:

- Gwireddu cyfleoedd neu annog cyfleoedd newydd i gefnogi newidiadau a chyfleoedd cadarnhaol mewn bywyd
- Cefnogaeth i leihau neu atal defnydd niweidiol e.e. ysmygu, alcohol, defnyddio cyffuriau a gamblo
- Cefnogaeth i leihau ymddygiadau negyddol e.e. trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Adeiladu ar ysbryd cymunedol
- Adeiladu gwydnwch, cydlyniant, iechyd a llesiant corfforol a meddyliol

Gall y ffigur canlynol o Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017): Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUEs) – Atal ac Ymateb o Safbwynt Iechyd y Cyhoedd hefyd eich helpu i feddwl

Ffigur 1: Ymateb o safbwynt iechyd y cyhoedd i Ddigwyddiadau Diweithdra Torfol



Enghreifftiau o brosiectau cymwys

Dyma enghreifftiau o'r math o weithgareddau cymwys y gellir eu hystyried ar gyfer arian. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon - fe'i lluniwyd i'ch rhoi ar ben ffordd i feddwl am eich prosiect neu'ch cynnig.

1. Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, teuluoedd a chymunedau (yn gwneud gwahaniaeth):

- Arian ar gyfer seilwaith cymunedol a chymdogaethol newydd, neu welliannau iddo, gan gynnwys mannau gwyrdd lleol.
- Arian ar gyfer mentrau cymunedol arloesol.
- Mesurau cymunedol i leihau costau byw, gan gynnwys cyllidebu, rheoli dyledion.
- Mwynhau ansawdd bywyd gwell trwy well cefnogaeth yn y gymuned.
- Helpu cymunedau i deimlo'n fwy hyderus am y dyfodol.
- Cefnogi gweithgarwch diwylliannol, gweithgareddau cyfoethogi a meithrin ysbryd cymunedol.

2. Heddiw, yfory a dyfodol iach a llesol:

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu a thyfu grwpiau atgyweirio neu erddi cymunedol.
- Cefnogaeth i ymwybyddiaeth ac atal hunanladdiad.
- Cefnogaeth i hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol
- Cefnogaeth i atal neu leihau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Arian ar gyfer chwaraeon neu grefftau lleol (neu weithgareddau pwrpasol eraill) sy'n gysylltiedig â lleihau ymddygiadau neu syniadau negyddol.
- Cefnogaeth i weithgareddau cymunedol i wella iechyd a llesiant.
- Cyfle i gysylltu ag eraill, cymryd rhan mewn gweithgareddau, a mynd allan i'r awyr agored.
- Gweithgareddau i blant a phobl ifanc

3. Heddiw, yfory a dyfodol gwydn:

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu neu dyfu grwpiau cymorth cilyddol, grwpiau cyfeillgarwch, cymorth rhianta, grwpiau diddordeb cyffredin (e.e. caffis atgyweirio, gerddi cymunedol, siediau dynion, gweithgareddau rhwng y cenedlaethau)
- Cefnogi datblygiad hyfforddiant lle mae'n gysylltiedig â gwirfoddoli a gwella iechyd meddwl a llesiant yn y gymuned.
- Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn y gymuned.

- Cefnogaeth i brosiectau seilwaith eraill ar raddfa fach.
- Arian ar gyfer gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol sy'n cael effaith.
- Gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad.
- Buddsoddi mewn adeiladu capasiti a chefnogi seilwaith ar gyfer grwpiau cymunedol.
- Gwell cefnogaeth i wirfoddolwyr.
- Hyfforddiant i bobl allweddol yn y gymuned mewn hyfforddiant iechyd meddwl.
- Gweithgareddau i blant a phobl ifanc

4. Cynrychioli gwerth am arian:

- Byddwch yn glir ynglŷn â'r hyn rydych chi am ei gyflawni a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau amgen o fewn y gymuned.

Lefelau grantiau

Bydd dwy ffrwd grant

- Grantiau bach - hyd at £10,000.
- £10,001 i £50,000.

Bydd y ddwy ffrwd ariannu yn cynnig cyfradd ymyrraeth o hyd at 100%.

Canllawiau pellach

Bydd y grantiau bach ar agor i geisiadau am grantiau untro hyd at £10,000 i gefnogi agweddau pwysig ar fywyd cymunedol. Gallai'r rhain gynnwys prynu eitemau bach o offer, gwaith cyfalaf bach, gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau. Ni all y gronfa gefnogi costau parhaus ac ni ddylai ymgeiswyr ddisgwyl gwneud cais bob blwyddyn. Dylech allu dangos eich bod yn gweithio tuag at wneud eich gweithgaredd yn gynaliadwy.

Sefydliadau cymwys

- Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol Cyfansoddedig.
- Elusennau Cofrestredig
- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Menter Gymdeithasol
- Menter Gydweithredol
- Ymddiriedolaeth Datblygu
- Gall canghennau lleol o sefydliadau trydydd sector cenedlaethol wneud cais gan ddefnyddio cyfansoddiad y rhiant gorff.

- Gall Cyngorau Tref a Chymuned wneud cais am brosiectau cymunedol sy'n ychwanegol at gyfrifoldebau statudol arferol a fydd o fudd i'r gymuned.
- Awdurdodau lleol
- Sefydliadau di-elw

Noder na fydd ceisiadau dyfaliadol gan sefydliadau sy'n chwilio am arian nad yw'n gysylltiedig â phwrrpas cymunedol y gronfa hon yn llwyddiannus.

Rhaid i bob prosiect fod wedi'i leoli o fewn Castell-nedd Port Talbot.

Os nad yw'n ymddangos bod cynnig eich prosiect yn alinio â'r gweithgareddau uchod, cysylltwch â'r Swyddog Cronfa a enwir a fydd yn gallu eich cyngori ar gymhwysedd a'ch cyfeirio at gynlluniau ariannu eraill a allai fod yn addas.

Costau Eraill

Gall costau proffesiynol hefyd fod yn rhan o'r cais lle bo'n berthnasol:

- Cyngor proffesiynol (e.e. pensaernïol, arolygu, rheoli prosiectau).
- Ffioedd statudol (Rheoliadau Adeiladu ac ati).

Lle nad yw sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, bydd y costau hyn yn gymwys fel rhan o'r grant. Lle gellir adennill TAW, ystyrir bod hyn yn anghymwys.

Costau Anghymwys

Mae'r canlynol yn gostau anghymwys:

- Lobïo, gwesteia, deisebu neu herio penderfyniadau y telir amdanynt, sy'n golygu defnyddio'r Gronfa i lobïo (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn ymgymryd â gweithgareddau sydd â'r bwriad o ddylanwadu neu geisio dylanwadu ar y Senedd, y Llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol gan gynnwys derbyn arian UKSPF; neu geisio dylanwadu ar gamau deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Taliadau am weithgareddau o natur wleidyddol neu grefyddol yn unig.
- TAW y gellir ei adennill gan CThEF.
- Anrhegion, neu daliadau am anrhegion neu roddion.
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau.
- Taliadau am waith neu weithgareddau y mae gan yr awdurdod lleol arweiniol, cyflwynydd y prosiect, y buddiolwr terfynol, neu unrhyw aelod o'u partneriaeth ddyletswydd statudol i ymgymryd â nhw, neu sy'n cael eu hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill.

- Digwyddiadau annisgwyl a rhwymedigaethau annisgwyl.
- Difidendau.
- Dyledion drwg, costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwy, neu ddirwyn cwmni i ben.
- Treuliau mewn perthynas ag ymgyfreitha, diswyddo annheg neu iawndal arall.
- Costau yr eir iddynt gan unigolion wrth sefydlu cynlluniau pensiwn preifat a chyfrannu atynt.

Ni ddylid dechrau gwaith nes bod cytundeb grant ar waith. Anogir darpar ymgeiswyr i gysylltu â Swyddog Cronfa'r Prosiect yn gynnar i drafod unrhyw gynigion a chymhwysedd, yn ogystal â'r angen am reoliadau cynllunio neu adeiladu ac ystyriaethau dylunio allweddol.

Dyfernir grantiau yn ôl disgresiwn y Cyngor. Bydd swm unrhyw grant a gynigir yn cael ei asesu ar sail prosiect unigol, gan ystyried y manteision amgylcheddol ac economaidd a fydd yn deillio o hynny. Mae dyraniad cyfyngedig o arian grant.

Rhan 2

1. Dangosyddion y Rhaglen

Fel rhan o'ch cynnig, bydd angen i chi ddangos sut rydych chi'n bodloni dangosyddion penodol a mesuradwy sy'n cyfrannu at amcanion cyffredinol y gronfa.

Bydd angen i brosiectau sy'n sicrhau arian nodi o leiaf un dangosydd o'r rhestr isod. Mae angen cyflawni a dangos tystiolaeth o bob dangosydd erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.

Gellir dod o hyd i ddiffiniadau yn **Atodiad 1**.

Dangosyddion

- Nifer y bobl yn ymgysylltu
- Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd
- Nifer y mannau cymunedol a grëwyd neu a wellwyd
- Nifer y sesiynau arbenigol a gyflwynwyd
- Nifer y cyfleoedd gwirfoddol a gefnogwyd
- Nifer y mentrau yn mynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol

2. Amserlenni Cyflawni Prosiectau

Rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau erbyn 30^{ain} Medi 2027, a rhaid hawlio'r arian yn llawn erbyn y dyddiad hwnnw.

Amserlen Ddangosol (yn amodol ar newid):

Y Gronfa yn agor	Medi 2026
Gwahoddiadau i Fynegi Diddordeb – y gronfa'n lansio ar wefan y Cyngor	Medi 2026
Asesu Ceisiadau	Ar sail dreigl
Panel Ariannu (penderfyniadau'n cael eu gwneud)	Ar sail dreigl
Cyfnod dosbarthu	Medi 2026 tan 30 Medi 2027
Dyddiad cau ar gyfer Ceisiadau Llawn	31 ^{ain} Mai 2027

3. Y Broses Ymgeisio

- 3.1 Cysylltwch â Swyddog Prosiect Cronfa Gymunedol Iechyd Meddwl a Llesiant Tata i drafod eich cynnig prosiect drwy tatacommunityfund@npt.gov.uk
- 3.2 Bydd tîm Cronfa Gymunedol Iechyd Meddwl a Llesiant Tata yn asesu eich ffurflen mynegi diddordeb wedi'i llenwi i weld a yw'n gymwys, ac os bydd eich prosiect yn gymwys, bydd ffurflen gais yn cael ei hafon.
- 3.3 Efallai y gofynnir i chi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais lle bo'n berthnasol.
- 3.4 Unwaith y bydd y panel asesu wedi gwneud penderfyniad, byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus, anfonir llythyr cynnig grant atoch y mae'n rhaid ei lofnodi, ei ddyddio a'i ddychwelyd i Gyngor CNPT o fewn 14 diwrnod gwaith i'w dderbyn.
- 3.5 Os yw'n berthnasol, unwaith y bydd yr holl gydsyniadau gofynnol yn eu lle, gallwch ddechrau cyflawni eich prosiect. Rhaid gwneud yr holl waith yn unol â Rhwymedigaethau Statudol megis Cynllunio, Rheoli Adeiladu a gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gellir dirymu cynnig grant os nad yw'r gwaith yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth statudol.
- 3.6 Bydd gofyn i chi gyflwyno hawliadau ariannol ac adroddiadau monitro ar gyfer eich prosiect o fewn y templedi a ddarperir. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw monitro'r gwaith. Dylid hefyd adrodd am unrhyw newidiadau i gost neu amserlen y prosiect, neu unrhyw newid contractwr, i Swyddog Prosiect y Gronfa cyn gynted ag y cânt eu sylweddoli.
- 3.7 Ar ôl cwblhau'r prosiect, bydd angen adroddiad Cau'r Prosiect.

4. Proses Asesu

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf canlynol:

- Y gallu i fodloni un neu fwy o themâu'r gronfa.
- Yn gallu dangos angen sydd wedi'i nodi a'i fynegi'n glir.
- Yn gallu dangos cysylltiad clir â phontio TSUK.
- Bydd yn cyflawni yn erbyn ymyriadau.
- Yn gallu cyflawni'r gweithgareddau arfaethedig o fewn yr amserlen
- Gwerth am arian.

- Bydd Panel Ariannu yn ystyried pob cais llawn.

Mae meini prawf asesu manwl sy'n ymwneud â'r GRONFA i'w gweld yn Atodiad 2.

5. Dogfennau Ategol

Mae'r ffurflen gais yn amlinellu'r dogfennau ategol y mae angen eu cyflwyno ochr yn ochr â'ch cais er mwyn sicrhau bod Cyngor CNPT yn gallu cynnal y diwydrwydd dyladwy gofynnol ar eich cais.

Rhaid i bob Cais lenwi/cyflwyno'r canlynol:

- Ffurflen Gais - wedi'i llenwi a'i llofnodi.
- Dogfen Lywodraethu (Cyfansoddiad/Erthyglau Cymdeithasu/Rheolau).
- Rhaid i gwmni cyfyngedig/sefydliad trydydd sector ddarparu copi o gyfrifon archwiledig y sefydliad ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae angen i fasnachwr unigol neu bartneriaeth ddarparu copi o ffurflenni treth hunanasesu'r ymgeisydd ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae angen i fusnes newydd ddarparu Cynllun busnes – a ddylai nodi ffynonellau ariannu a chopi o ragolygon llif arian 2 flynedd.
- Tystiolaeth o Arian Ychwanegol – Llythyrau cadarnhau (Os yn berthnasol).

Dim ond lle cytunwyd arni gyda Swyddog y Gronfa y bydd angen y wybodaeth ganlynol:

- Cost Gwaith – dyfynbrisiau yn unol â'r canllawiau caffael
- Prawf o berchnogaeth tir - copi o weithredoedd teitl neu gopi o gytundeb prydles
- Lluniadau a ffotograffau'r Cynllun - cynllun y lleoliad, lluniadau manwl neu fraslun o'r cynllun, cyflwr presennol a defnydd presennol yr eiddo neu'r tir
- Tystiolaeth bod caniatâd perthnasol ar waith gan gynnwys caniatâd cynllunio, cydsyniad landlord, trwyddedau, rheoliadau adeiladu, cydsyniad amgylcheddol, cydsyniad cadwraeth, hysbysiad adeiladu ac ati.
- Cytundebau cynnal a chadw lle bo'n berthnasol
- Ardystiad yswiriant a manylion yr yswiriant

I fynegi diddordeb mewn gwneud cais am y Gronfa, neu i gael gwybod mwy am y gronfa, cysylltwch â Swyddog Prosiect Cronfa Tata ar tatacommunityfund@npt.gov.uk

Atodiad 1 – Dangosyddion y Rhaglen

Allbwn	Diffiniad	Tystiolaeth Archwilio – gwiriwch isod
Nifer y bobl yn ymgysylltu	Nifer yr unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau, sesiynau, gweithdai neu gymorth cymunedol iechyd meddwl a llesiant a ddarparwyd trwy ddarparwyr a ariennir.	• Cofnodion presenoldeb, taflenni mewngofnodi neu debyg. • Ffurflenni monitro darparwyr yn crynhoi data ymgysylltu
Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd	Nifer yr amwynderau/cyfleusterau newydd a grëwyd neu a wellwyd. Mae amwynder/cyfleuster yn golygu unrhyw wasanaeth wedi'i gynnwys o fewn strwythur ffisegol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lysoedd ynadon, gorsafoedd heddlu, cyfleusterau chwaraeon, ysbytai a thoiledau cyhoeddus. - Mae crëwyd yn golygu nad oedd yr amwynder/cyfleuster yn bodoli o'r blaen. - Mae 'gwellwyd' yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau gyda'r nod o greu gofod cyhoeddus gwell. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau presennol.	• Tystysgrif cwblhau ymarferol y gwaith. e.e. ardystiad QS o'r gwaith a wnaed, A • Ffotograffau cyn ac ar ôl cwblhau'r cynllun
Nifer y grwpiau cymunedol newydd a grëwyd	Nifer y grwpiau newydd dan arweiniad y gymuned a sefydlwyd o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth a ariennir gan grantiau, sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant.	• Cadarnhad o ffurfio grŵp (e.e., cyfansoddiad, cofnodion cyfarfod sefydlu, e-bost cadarnhau) • Deunydd hyrwyddo neu amserlen weithgareddau sy'n dangos gweithgaredd grŵp
Nifer y sesiynau arbenigol a gyflwynwyd	Cyfanswm nifer y sesiynau iechyd meddwl a llesiant arbenigol a ddarparwyd, gan gynnwys cwnsela, gweithdai therapiwtig, neu ymyriadau cymorth wedi'u targedu.	• Logiau cyflwyno yn manylu ar nifer a math y sesiynau • Cynlluniau sesiynau neu gadarnhad therapydd/arweinydd gweithgarwch
Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd	Nifer y rolau gwirfoddoli a drefnwyd a gefnogwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl wirfoddoli'n rheolaidd, a chyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli untro. - Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at y rhai sydd wedi rhoi cymorth di-dâl drwy grŵp, clwb neu	• Datganiad gan grŵp, clwb, neu sefydliad sy'n darparu manylion am gefnogaeth, A • Cofnodion presenoldeb, NEU daflenni llofnodi, NEU daflenni amser.

	sefydliad: er enghraifft, arwain grŵp, cymorth gweinyddol neu ddod yn gyfaill neu fentora pobl.	
Nifer y mentrau yn mynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol	Nifer y gweithgareddau neu'r ymyriadau a gyflwynir sy'n ceisio atal, lleihau neu ymateb i ymddygiadau niweidiol yn y gymuned e.e. defnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai hyn gynnwys mesurau ataliol fel darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a chefnogaeth gymdeithasol, datblygu sgiliau ymdopi i leihau'r siawns o ymddygiad niweidiol yn y dyfodol ac ati.	Cofnodion cyflawni, presenoldeb mewn digwyddiadau, deunyddiau ymgyrchu, adnoddau lleihau niwed a ddosbarthwyd, logiau allgymorth, astudiaethau achos, adroddiadau gwerthuso

Atodiad 2

Rheolau Caffael Grantiau Trydydd Parti

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu yn unol â gwerth amcangyfrifedig (gan gynnwys TAW) y contract yn ystod y cyfnod dyfynbris/cyn-dendro. Rhaid i benodiadau ddangos y gwerth gorau a rhaid i ymgeiswyr gadw cofnodion i gefnogi eu penderfyniadau.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu na fydd y costau'n gymwys i gael cymorth o dan Gronfa Gymunedol Iechyd Meddwl a Llesiant Tata.

Cyfanswm y Gwerth heb gynnwys TAW	Proses Gaffael
Gwerth hyd at £10,000 (gan gynnwys TAW)	Contractau hyd at £10,000 – 1 (un) dyfynbris ysgrifenedig o ffynhonnell gystadleuol i ddangos arfer da a gwerth am arian. Copi o'r dyfynbris wedi'i gadw ar gyfer cofnodion. Mae'r holl ffigurau'n cynnwys TAW.
£10,001 i £100,000*	Rhaid cael isafswm o 2 (dau) ddyfynbris gan ffynonellau cystadleuol gyda o leiaf 1 (un) dyfynbris yn cael ei dderbyn. Rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar: • yr un manyleb o ofynion • yr un meini prawf gwerthuso ac wedi'u gwerthuso ar sail debyg am debyg. Mae'n arfer da sefydlu panel gwerthuso. • yr un dyddiad cau ar gyfer derbyn dyfynbrisiau, ac ar ôl hynny ni dderbynnir unrhyw gyflwyniadau. Rhaid cofnodi cofnod wedi'i ddogfennu o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad i ddyfarnu at ddibenion archwilio.

Os mai dim ond **1 (un) dyfynbris a geir, rhaid i chi gysylltu â'r Cyngor i ddarparu manylion a chyfiawnhad dros y broses gaffael rydych chi wedi'i chynnal. Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r penderfyniad i fwrw ymlaen i brynu fesul achos. Copïau o'r holl ddyfynbrisiau a gohebiaeth wedi'u cadw ar gyfer cofnodion.*

Hysbysebu drwy GwerthwchiGymru

Mae'n bosibl hysbysebu ar y wefan Caffael Cenedlaethol, www.GwerthwchiGymru.co.uk os ydych chi mewn sefyllfa lle rydych yn cael anhawster dod o hyd i'r nifer lleiaf o gyflenwyr sydd eu hangen a/neu os hoffech chi amrywio neu ddenu cyflenwyr newydd i roi dyfynbris neu dendr. Ystyrir bod hysbysebu drwy GwerthwchiGymru yn arfer gorau, fodd bynnag efallai y byddwch chi'n teimlo eich bod chi'n gallu nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau yn gyffredinol yn well.

Mae'r cyfleuster ar gael am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru <http://www.gwerthwchigymru.gov.uk/> neu cysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 am ragor o wybodaeth.

Osgoi gwrthdaro buddiannau

Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y gallai ymgeiswyr / datblygwyr neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau), fod eisiau tendro am contract a gynigir gan yr ymgeisydd/datblygwr. Mae hyn yn dderbyniol, ond bydd angen i ymgeiswyr sicrhau bod y broses dendro yn agored, yn dryloyw ac yn deg, fel yr amlinellwyd uchod, ac nad yw'n rhoi unrhyw fantais i un person neu gwmni sy'n tendro dros un arall, sy'n deillio o'r broses. Rhaid cymryd camau priodol i nodi, unioni ac atal unrhyw wrthdaro buddiannau.

Os oes gan ymgeisydd/datblygwr neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig ag ef, fudd yn unrhyw un o'r cynigion posibl am contract a gynigir:

- Rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr hwnnw, neu'r person sydd â budd, ddatgan y budd hwnnw yn ysgrifenedig i'r Cyngor.
- Ni ddylai manylebau a meini prawf gwerthuso fod yn rhagfarnllyd nac wedi'u teilwra i ffafrio un ateb neu unrhyw barti dros un arall.
- Ni ddylai'r person neu'r parti hwnnw sydd â budd gymryd unrhyw ran o gwbl yn unrhyw un o'r gweithdrefnau gwerthuso tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd grant ddarparu'r gymeradwyaeth derfynol.
- Rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.
- Os byddai'r contract fel arfer yn destun un weithdrefn dendro, argymhellir y dylai'r noddwr geisio dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr arall.

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod tegwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw uniondeb yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

Rhaid i dderbynwyr arian gyflogi gweithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol i asesu tendrau, goruchwyllo gwaith prosiect a darparu tystysgrifau ar gyfer gwaith wedi'i gwblhau. Gellir cynnwys y gost hon yn y gwariant cymwys ar gyfer cymorth ariannol hyd at derfyn o 10% o gyfanswm cost y prosiect ar yr amod ei bod wedi'i chyfrif yn y ffurflen gais a bod cytundeb ysgrifenedig penodol y Cyngor wedi'i geisio cyn cyflogi ymgynghorwyr. Rhaid i'r ymgynghorydd proffesiynol feddu ar gymhwyster sy'n briodol i natur y gwaith arfaethedig.

Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract

Os oes angen unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau / tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, efallai y bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau bod y gwerth gorau am arian wedi'i gyflawni. Gall hyn ddigwydd lle mae ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle mae tendrau'n cael eu derbyn sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau ariannu'n newid ac ati. Rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r Cyngor a fydd yn cynnig cyngor priodol.

Atodiad 3

Meini Prawf Asesu Cais

Bydd pob cais i'r GRONFA yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf sgorio canlynol a bwysolir. Bydd pob maen prawf yn cael ei sgorio o 0-10.

Meini Prawf Sgorio	Uchafswm y pwyntiau i'w dyfarnu	Pwysoliad %
Yn cysylltu â phobl a chymunedau yr effeithir arnynt gan bontio Tata Steel ac yn eu cefnogi (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) a'r gallu i gyflawni un neu fwy o themâu allweddol y gronfa a bydd yn cyflawni yn erbyn ystod eang o allbynnau a chanlyniadau	10	25
Y graddau y gall y prosiect ddangos angen a sut y bydd y cynnig yn helpu i liniaru effaith y newid ar bobl a chymunedau	10	25
Cynaliadwyedd y cynnig, beth yw'r strategaeth cwblhau, parhad neu ymadael	10	15
Gwerth am Arian / Cynaliadwy yn Ariannol	10	20
Y graddau y gellir cyflawni'r prosiect o fewn amserlen y rhaglen	10	15
Graddio'r Ymateb	Sgôr	
Cyflwyniad Perffaith sy'n Cydymffurfio'n Llawn – mae'r ymateb yn fanwl iawn ac yn rhoi hyder yng ngallu'r ymgeisydd i gyflawni'r holl ofynion.	10	
Cyflwyniad Ardderchog – mae'r ymateb yn fanwl iawn ac yn rhoi hyder yng ngallu'r ymgeisydd i gyflawni'r gofynion.	9	
Cyflwyniad Da iawn – ymateb manwl, credadwy ac argyhoeddiedig i'r gofynion	8	
Cyflwyniad Da: ymateb credadwy i'r gofyniad	7	
Cyflwyniad Boddhaol – ymateb digonol i'r gofynion ac amcanion y rhaglen	6	
Cyflwyniad Cyfartalog – yn mynd i'r afael â rhai o'r gofynion ond yn brin o fanylion mewn meysydd	5	
Cyflwyniad Derbyniol – mae'r ymateb yn is na'r gofynion ac mae wedi'i egluro'n wael ond nid yw'n ddigonol i warantu gwrthod.	4	
BYDD METHU Â CHYRRAEDD Y SAFON ISAF <u>MEWN UNRHYW GWESTIWN</u> YN ARWAIN AT EITHRIO EICH CYFLWYNIAD O'R BROSES WERTHUSO		
Cyflwyniad Gwan – yn methu â chyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion gydag esboniad gwan neu ddim esboniad o gwbl. Dim ond i raddau cyfyngedig y mae'n mynd i'r afael â'r gofynion	3	
Cyflwyniad Gwael – prin yn bodloni'r gofynion ac yn codi amheuaeth ynghylch y gallu i ddatblygu prosiect derbyniol a buddiol	2	



Annerbyniol (Materion Mawr) Mae'r cyflwyniad naill ai'n methu'n llwyr â bodloni'r meini prawf neu'n methu â dangos unrhyw ddealltwriaeth/profiad/hygrededd yn erbyn amcanion y rhaglen.	1
Ymateb heb ei ateb, neu ymateb sy'n gwbl annerbyniol ac nad yw'n bodloni'r gofyniad mewn unrhyw ffordd	0

Atodiad 4

Rheoli Cymorthdaliadau

Mae Cronfa Iechyd Meddwl a Llesiant Cymunedol TATA yn cael ei gweithredu o dan Reolau Cymhorthdal y DU.

Bydd pob cais yn cael ei asesu i sefydlu a yw'r gefnogaeth yn gyfystyr â chymhorthdal o dan reolau Cymhorthdal y DU. Bydd gofyn i bob ymgeisydd ateb y 4 cwestiwn canlynol.

Os mai eich ateb i bob un o'r 4 cwestiwn canlynol yw 'ydy', mae'r cymorth yn gymhorthdal. Os yw un neu fwy o'ch atebion yn 'na', nid yw'n gymhorthdal. Os ydych chi'n ansicr, darperir mwy o fanylion yn y canllawiau statudol (gweler hefyd [Cymorth Pellach](#)).

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu rhesymeg dros eu hasesiad yn Adran 10 o'r ffurflen gais.

A yw'r cymorth ariannol yn cael ei roi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o adnoddau cyhoeddus gan awdurdod cyhoeddus? YDY/NAC YDY	Mae 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys unrhyw endid sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus ar unrhyw lefel o lywodraeth ganolog, datganoledig, rhanbarthol neu leol a chyrff anllywodraethol sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus. Mae 'adnoddau cyhoeddus' yn cynnwys arian cyhoeddus a weinyddir gan lywodraeth y DU, y llywodraethau datganoledig, neu awdurdodau lleol, boed yn cael eu rhoi'n uniongyrchol, drwy gyrff cyhoeddus (megis asiantaethau), neu drwy gyrff preifat.
A yw'r cymorth ariannol yn rhoi mantais economaidd i un neu fwy o fentrau? YDY/NAC YDY	Rhaid i'r derbynnydd fod yn 'fenter': unrhyw endid sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd, sy'n golygu cynnig nwyddau a gwasanaethau ar farchnad. Rhaid i'r cymorth ariannol roi mantais economaidd, sy'n golygu ei fod yn cael ei ddarparu ar delerau ffafriol. Ni fydd cymorth ariannol yn rhoi mantais economaidd os gellid ystyried yn rhesymol ei fod wedi'i gael ar yr un telerau ar y farchnad.
A yw'r cymorth ariannol yn benodol? Hynny yw, a yw'r fantais economaidd wedi'i darparu i un (neu fwy nag un) fenter, ond nid i eraill? YDY/NAC YDY	Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol a ddarperir i fuddiolwyr penodol a bennir ar sail ddisgresiynol gan y llywodraeth, yn ogystal â chymorth sydd o fudd (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i fentrau mewn sector, diwydiant neu ardal benodol yn unig, neu sydd â nodweddion penodol.
A fydd gan y cymorth ariannol effaith, neu a fyddai'n gallu cael effaith, ar gystadleuaeth neu fuddsoddiad o fewn y DU, neu fasnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a gwlad neu diriogaeth arall? BYDD/ NA FYDD	

Lle bo cymhorthdal, byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod unrhyw gymorth yn cydymffurfio â rheolau cymhorthdal cyhoeddus.

*'Mae croeso i chi gysylltu â'r cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
You are welcome to contact the council through the medium of Welsh or English*